PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 15 | Ebrill 11, 2024 | 50c.


## Cyngor yr Undeb

Daeth cynrychiolaeth o'r cyfundebau at ei gilydd yng Nghanolfan Medrau, Prifysgol Aberystwyth, ar ddydd Iau 21 Mawrth er mwyn bod yn rhan o waith Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.




Cafwyd cyfle i wrando ar adroddiadau gan ysgrifenyddion yr Adrannau, oedd eisoes wedi cyfarfod ar Zoom yr wythnos cynt.

I agor y gweithgareddau cafwyd cyflwyniad gafaelgar gan Dr Graham McGeoch, Ysgrifennydd Cenhadol, Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Traethodd am hanes a chychwyniad CWM gan ehangu ar ei sylwadau i sôn am gaethwasiaeth hanesyddol. Cydnabyddodd y bu rhai cenhadon yn euog o gyflwyno diwylliant Prydeinig ochr yn ochr â'r Efengyl ac y bu rhai o weithwyr y London Missionary Society, fel y'i gelwid ar y pryd, wedi bod yn ymhél a chaethwasiaeth. Esboniodd bod CWM wedi syrthio ar eu bai gan wneud datganiad yn mynegi eu hedifeirwch am yr hyn a ddigwyddodd. Y maent hefyd wedi neilltuo £10 miliwn er mwyn hyrwyddo prosiectau perthnasol. Wedi'r cyflwyniad cafwyd trafodaethau ar y pynciau a godwyd.



Cadeiriwyd y Cyngor am y tro olaf gan y medrus a'r hynaws Dafydd Roberts, Trefor. Bu'n cadeirio am ddau dymor oherwydd bod y pla Covd wedi dod ar ei rawg i ddrysu ein cynlluniau. Mynegwyd diolch twymgalon iddo am ei arweiniad doeth a hwyliog gan y Parchg Dyfrig Rees.

Er mwyn i chi gael blas ar yr hyn drafodwyd yn y Cyngor cyflwynwn i chi grynodeb o'r hyn fu'n destun trafod ym mhob adran gan gychwyn gydag Adran y Genhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang.

### Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang

Cyfarfu'r adran o dan gadeiryddiaeth y Parchg Jill-Hailey Harries a chafwyd trafodaethau digon brwd o dan ei harweiniad.

### Caethwasiaeth fodern

Yn dilyn trafodaeth gynt ar gynllun Onesimus CWM, gwelwyd cyfle i fynd i'r afael â mater caethwasiaeth fodern, sy'n gymaint rhan, er yn gudd, o fywyd ein gwlad. Paratowyd nodiadau gan Jeff yn dilyn gwaith ymchwil ganddo i'r mater a gwelwyd sawl ffordd bosibl o ymdrin â'r mater, er gwybodaeth ac arweiniad i'r eglwysi. Gellid paratoi cyfres o erthyglau yn *Y Tyst* gan holi aelodau ein heglwysi sy'n arbenigo ym maes masnachu pobl. Gellid gwyntyllu'r posibilrwydd o ymgeisio am nawdd gan CWM, ar y cyd â'r Presbyteriaid, o bosibl, i gomisiynu rhywun i fwrw ati i baratoi adnodd penodol ar ein cyfer.

### Cenhadaeth ddigidol ac adnoddau cerddorol

Soniodd Mererid Williams am y gwaith sydd mewn llaw o baratoi cyflwyniad sy'n cynnwys elfen gerddorol gref gyda chaneuon/emynau ar gael i eglwysi eu defnyddio yn ôl eu dymuniad. Bwriedir teithio'r cynhyrchiad i dri lleoliad cyfleus i eglwysi'r gogledd, y canolbarth a'r de.

### Prosiect Denman

'Dysgu am Iesu' yw'r thema eleni.

### Materion hanes

Braf nodi bod Rhodri, ar ran y Gymdeithas Hanes, wedi llwyddo i gael perthynas i Rhys Nicholas, sef Richard Hughes, i gyflwyno sgwrs am ei ewythr yn yr Undeb eleni â hithau'n 110 mlynedd ers ei eni.

### CWM

Bu Caspar Rolant a Gwydion Outram yn ein cynrychioli mewn cynhadledd ieuenctid yn Llundain a chafwyd adroddiad o'r gynhadledd honno yn *Y Tyst*.

Bydd Tomos Edwards, Eleri Mai Thomas, Dylan Rhys a'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn ein cynrychioli yng Nghymanfa CWM a gynhelir yn Durban, De Affrica ym mis Mehefin.

### Cyflwyniad gan Dr Alun Tudur

Cafwyd amlinelliad gan Alun o'r ymchwil a wnaed ganddo dros ei gyfnod Sabothol, diweddar i'r gwaith o blannu eglwysi newydd er sicrhau dyfodol y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru. Bu'n ymweld â nifer o eglwysi newydd, un Gymraeg, yn eu plith a chafodd ei gyffroi a'i ysbrydoli'n fawr gan eu tystiolaeth, gymaint felly nes ein hannog fel eglwysi Annibynnol i ystyried cychwyn cynulleidfaoedd newydd. Dilynwyd ei gyflwyniad gan drafodaeth frwd a chyda'r dymuniad i symud ymlaen gyda thrafodaeth fanylach.

### Adran Dinasyddiaeth Gristnogol

### Materion CYTÛN

i. **Sul Cofio Covid**
   Mae Sul cyntaf ym mis Mawrth wedi ei glustnodi fel Sul Cofio Covid – ni chredir fod y dyddiad yma'n un addas ar gyfer Cymru oherwydd yr arferiad o gynnal dathliadau Gŵyl Ddewi bryd hynny.

ii. **Gweithredu ar newid hinsawdd**
   Nodwyd y byddai hawl gan Undeb yr Annibynwyr i ymuno yn uniongyrchol â Climate Cymru.

*parhad ar dudalen 2*

# Cyngor yr Undeb – parhad



Byddai hyn yn cryfhau yr elfen Gristnogol o fewn y corff.

I'w ystyried ymhellach gan y gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd.

**iii. Canmlwyddiant Apêl Arloesol yr Eglwysi am Heddwch 2025**
Mynegwyd y dyhead am ymrwymiad ac egni ar ran yr Undeb, yr Adran a'r Cyfundebau er hyrwyddo yr ymgyrch arbennig yma.
Bydd Pwyllgor Gweinyddol yr Undeb yn trafod ymhellach ar 9 Ebrill.

### Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Roedd fideo newydd yn cael ei pharatoi (a fydd ar gael yn fuan ar wefan yr Undeb), ac fe roed anogaeth i bori ar y wefan i fanteisio ar y cyfoeth o ddefnydd oedd ar gael.

### Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

Nodwyd bod swyddogion yr Undeb yn paratoi cyfres o fideos byr yn seiliedig ar y pum maes penodol sy'n allweddol o ran ein hôl troed amgylcheddol, sef: Dillad / Bwyd / Teithio / Ynni / Meddylfryd.

### Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg / Cymorth Cristnogol 2023/24

Bydd gwybodaeth yn *Y Tyst* am gyrhaeddiad yr Apêl, a bydd cyfraniadau yn cael eu derbyn hyd at ddiwedd 2024. Nodwyd yr angen am gydbwysedd er sicrhau bod anghenion tramor a gartref yn cael y sylw a'r gefnogaeth ddyladwy.

### Gwerthiant Eiddo: Penderfyniad a gyflwynwyd i gynhadledd UAC yn y Rhos, 29 Gorffennaf 2023

Argymhellir i gynrychiolaeth o'r Cyngor gwrdd gyda chyfreithiwr yr Undeb, a chomisiynu adroddiad cyfreithiol a fyddai'n gymwys i'w rannu a'r eglwysi. Dylid datblygu strategaeth fyddai'n arwain at ddatgorffori a chau lle bo hynny'n anochel.

### Cenhadu: Masnach Deg

Gwnaed cais ar i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gysylltu â'r cyfundebau ynglŷn â darpariaeth Fasnach Deg yn eu hardaloedd, ac am ymrwymiad eglwysi i fasnach deg. Mae gwybodaeth am 'Grantiau ac Adnoddau gan Gymru Masnach Deg' ym Mwletin Polisi Chwefror / Mawrth 2024.

### Ymateb i un o bynciau llosg y dydd:

Nodwyd tlodi a materion budd-daliadau mewn ardaloedd difreintiedig fel pwnc trafod.

# Brecwast Gweddi Sir Benfro

'Y Brecwast Gweddi gore, mor belled!' 'Brecwast o'r safon ucha'.' 'Wedi mwynhau mas draw. Braint oedd cael mwynhau bwyd hyfryd a chymdeithas felys ond yn bennaf oll i glywed tystiolaeth gadarn am ras Duw a hynny yn Gymraeg.' Dyma rai ymatebion i'r Brecwast Gweddi pan ddaeth tua 110 o bobl at ei gilydd yng ngwesty Allt-yr-afon Cas-blaidd ar fore Sadwrn 2 Mawrth. Blasus tu hwnt oedd y brecwast, *full Welsh*, wrth gwrs, wedi'i weini'n gynnes a phroffesiynol gan staff gofalgar y gwesty, a'r cyfan yn digwydd mewn awyrgylch cyfeillgar yn yr ystafell fawr. Harddwyd y byrddau gan flodau prydferth, gwaith graenus Llinos Twigg.

### Rhyfeddod cariad Duw

Yn dilyn toriad byr cawsom ein harwain mewn sesiwn o stori a chân gan Cath Woolridge a Rachel Mathias, o Sound of Wales. Ardderchog! Cafodd y gwesteion gyfle i ymuno yn nifer o'r emynau traddodiadol, fel 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod', 'Dros Gymru'n gwlad, O Dad dyrchafwn gri' a 'Dyma gariad fel y moroedd'. Roedd yn braf clywed rhai emynau newydd hefyd, ffrwyth gwaith yr Ysbryd Glân yn ein dydd ni. Soniodd Cath am ryfeddod cariad Duw a'i ffyddlondeb ym mhob storm mewn bywyd. Ei hanogaeth oedd i bawb bwyso ar ei gariad a ddatguddiwyd yn Iesu Grist, ei Fab.

### Gweddïau dwys

Cawsom ein harwain mewn gweddi gan unigolion ar themâu gwahanol, Bonni Davies yn gweddïo dros fyd amaeth, Siân Elin Thomas dros fyd addysg, Catrin Isaac Thomas dros y gwasanaethau brys a Geoff Eynon dros Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y gweddïau'n ddwys, gafaelgar a chofiadwy. Yna cawsom ail sesiwn gan Cath a Rachel, y ddwy'n canu mor swynol. Mae'n amlwg bod eneiniad Duw arnynt. Er iddynt arwain addoliad eisoes ar draws Prydain, mewn cynadleddau mawr a bach, dyma'r tro cyntaf iddynt ei wneud yn y Gymraeg. Braf oedd eu gweld yn mentro ar ddefnydd cyhoeddus o'r iaith Gymraeg. Efallai y bydd dechreuad yn y Brecwast Gweddi yn arwain at bethau mawr a byddwn yn medru tystio maes o law, dechreuodd hyn gyda ni yn Sir Benfro!

### Diolch

Cafodd nifer eu cyffwrdd gan gyfraniadau Cath a Rachel a'r gweddïau dwys. Mewn dydd o drai ar grefydd yng Nghymru, roedd hi'n braf gweld cymaint o bob oed wedi dod i frecwast gweddi o bob rhan o Sir Benfro a rhai o Sir Gâr. Estynnir diolchiadau i Gronfa Langton am gynorthwyo'n ariannol i sicrhau bod tua deunaw o bobl ifanc wedi cael y cyfle i fynychu'r brecwast am ddim ac wedi elwa o fod yn rhan o ddigwyddiad Cristnogol



cyffrous. Mae'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, galwadau ffôn a sgyrsiau unigol wedi bod yn llawn o werthfawrogiad am y Brecwast Gweddi eleni. Gellir cael llawer mwy o fanylion am weinidogaeth Cath a'i phriod Dai ar wefan Sound of Wales.
https://www.soundofwales.org.uk

Wrth gwrs, un peth yw mynychu Brecwast Gweddi sirol unwaith y flwyddyn, peth arall yw cael baich i weddïo'n gyson dros Sir Benfro. Pwy tybed a ddaw i sefyll yn y bwlch i weddïo'n gyson am adfywiad ysbrydol yn ein sir?

**Geraint Morse**

Yr Adran Gydenwadol
EBRILL 11 2024 RHIF 163

# Cwrdd â'r Iesu Byw yn Llanw 2024

Bu llawer o deulu eglwys Ffynnon, Llandysul, draw yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, wedi Sul y Pasg ar gyfer Gŵyl Gristnogol Llanw. Roedd yn gyfle i gydfwyta, cyd-fyw, cydweddïo, cydfoli, cyd-ddysgu a chyd-ddathlu'r atgyfodiad wrth i Gristnogion ac unigolion sydd â diddordeb mewn Cristnogaeth o bob oed a chefndir ddod ynghyd rhwng 1 a 5 Ebrill.




Uchafbwynt rhai o deulu Ffynnon oedd 'gweld teuluoedd yn cael cwmni ei gilydd dros bryd o fwyd a dala lan dros fawl a gweddi', a 'cael treulio amser gyda ffrindiau da'. Roedd eraill wedi mwynhau 'hongian mas yn y nos gyda chymdeithas felys yn profi sgyrsiau annisgwyl rhwng pobl o bob oed ac o eglwysi ar draws Cymru' a 'gweld newid mewn unigolion wrth i Dduw weithio ynddyn nhw'.

Roedd ymdeimlad saff, cariadus, llawn rhyddid yn y gwersyll wrth i blant, pobl ifanc ac oedolion fwynhau gweithgareddau niferus ochr yn ochr â phaneidiau, sgyrsiau anffurfiol, cyfleoedd cyson i weddïo ac i fynd am dro. Roedd cyfle i blant a phobl ifanc fod yn annibynnol wrth fynd o un gweithgaredd i'r llall, a chyfle i rieni gael saib wrth i bob pryd gael ei baratoi ar ein cyfer yn y stafell fwyta bwrpasol. Roedd y bwyd blasus yn uchafbwynt i nifer o griw ifanc Ffynnon.

Roedd *crèche* llawn teganau, stori a chrefft i blant 3–5 oed, a gweithgareddau hwyliog Cristnogol gan arweinwyr profiadol i blant oed cynradd yn ogystal â'r rhai yn eu harddegau. Uchafbwynt bachgen yn ei arddegau o Ffynnon oedd 'gallu chwarae'r gitar fas mewn addoliad gyda degau o bobol ifanc eraill'. Uchafbwyntiau llawer o deulu Ffynnon oedd yr addoliad bob bore a nos yn y brif neuadd. Roedd yr addoli'n cael ei arwain gan Adlais yn y bore a chan eglwysi Ffynnon, Caersalem (Caernarfon) ac Emaus (y Bala) gyda'r nos. Cafodd nifer o deulu Ffynnon fudd o'r gwahanol seminarau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos hefyd.

Uchafbwynt personol i fi oedd cael gwrando ar brif siaradwr Llanw eleni, sef Arfon Jones. Fe sydd wedi cyfieithu'r Beibl i Gymraeg naturiol, bob dydd (beibl.net). Os nad oeddech chi yn Llanw, mi faswn yn eich annog i fynd i sianel YouTube neu dudalen Facebook yr ŵyl i wrando 'nôl ar y ffrydio byw.

Dros dri bore bu Arfon yn myfyrio ar y cysyniad o gael ein hachub a bod â rhan yn nheyrnas Dduw. Bu'n edrych ar stori'r dyn ifanc cyfoethog (Marc, pennod 10) a'r ffaith ei fod yn methu gollwng gafael ar ei gyfoeth er mwyn dilyn Iesu. Dywedodd Arfon fod hyn wedi ei herio ar hyd y blynyddoedd, ac fe'n heriodd ni i ystyried beth ydyn ni'n methu gollwng gafael arno wrth fyw fel Cristnogion. Yn ôl Arfon, ystyr y gair achub, achubiaeth go iawn, yw newid ein bywydau ni. Eglurodd fod Iesu wedi mynd i'r groes i ddangos i ni sut y mae'n ein galw ni i fynd i'r groes. Mae angen i ni ddilyn ôl ei droed.

Dyma ddywedodd dau o teulu Ffynnon:

> 'Dw i'n meddwl bod y *lineup* o ran pwy o'dd yn neud y *talks* yn ffantastig, yn enwedig Arfon yn siarad am realiti Cymru heddiw ac yn llwyddo i fod yn heriol ac annog ar yr un pryd.'

> 'Roeddwn i'n rili gwerthfawrogi pregethau onest a *humble*, heb fod ofn dweud y gwir.'

Roedd undod rhwng negeseuon heriol y siaradwyr i gyd wrth ein hannog ni fel Cristnogion i ystyried:

- ydyn ni'n byw yn wahanol i'r byd;
- ydyn ni'n byw fel dwylo a thraed Iesu yn y byd;



Criw da o blant oed cynradd yn mwynhau'r clwb plant Beiblaidd dyddiol

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cwrdd â'r Iesu Byw yn Llanw 2024*
*(parhad o dudalen 1)*

- ydyn ni'n byw fel petai Iesu yn deilwng o'n bywyd cyfan?

Cafwyd cyfle gyda chriw 100.cymru i glywed am heriau a bendith plannu eglwysi ar draws Cymru a'r byd. Bu llawer o hwyl wrth i Martyn Geraint ein hatgoffa bod angen aros yng ngwinwydden Crist er mwyn gweld ffrwyth da yn ein bywyd.

Mi wnaeth llawer o deulu Ffynnon fwynhau sgwrs Heulwen Davies, un o arweinwyr 21st-century Church yn Llanelli ar y nos Fawrth a sgwrs Steffan Morris ar y noson olaf dan y pennawd 'Teilwng': ''Nes i fwynhau Llanw trwyddo, ond nos Iau oedd yr uchafbwynt gyda Steffan. Cafodd e'r tôn yn iawn a'n hannog ni i roi Iesu yn y lle cywir. Roedd yn *amazing*.'

*Lleucu Meinir*
*Llandysul*


Arfon a Rachel Jones – Arfon oedd y prif siaradwr eleni

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## A oes gennych brofiad neu ddiddordeb yn y maes eiddo?

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn awyddus i benodi unigolyn brwdfrydig i'r swydd ganlynol i weithio fel rhan o dîm ymroddedig sy'n darparu arweiniad, cefnogaeth a chymorth i'n heglwysi:

**Cydlynydd Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru**

**Lleoliad**: Caerfyrddin
Cynigir patrwm gwaith hyblyg gyda chyfleon i weithio o adref, ond disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus dreulio cyfnod o dan hyfforddiant a chyfnodau penodol yn gweithio o'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ar draws Cymru.

**Pwrpas y Swydd**: Bod yn gyfrifol am weinyddu, cynorthwyo a chyfarwyddo eglwysi, cymanfaoedd ac unigolion mewn perthynas â materion eiddo a delio'n uniongyrchol ag eiddo sydd yng ngofal Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at amcanion eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru ynghyd â phrofiad neu ddiddordeb yn y maes eiddo ac yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyflog: £27,485.45–£28,438.70

Oriau: 35 awr yr wythnos

Ystyrir ceisiadau ar gyfer rhannu swydd

Dyddiad cau: 29 Ebrill 2024
Dyddiad cyfweld: 10 Mai 2024

I gael rhagor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â Dr Christian Tucker-Williams – 0345 222 1514 neu christian@ubc.cymru

Cymdeithas Emynau Cymru

## CYFARFOD Y GWANWYN 2024

Gwyn Davies: Emynau Nantlais
Rhiannon Davies: Azariah Shadrach
Eifion Jones: Gyrfa Dr David Evans
Rhidian Griffiths: Cofio Alun Davies

**DYDD SADWRN, 27 EBRILL 2024**
11.00–3.30
(Coffi a the ar gael o 10.30 ymlaen)
**Festri Capel y Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth**
Ffi (yn cynnwys cinio bwffe ysgafn): £12; cofrestru yn unig £5

Ateber erbyn **22 Ebrill 2024**:
Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth SY23 2HX
01970 610160 / 07506 482661
rhcgriffiths@btinternet.com

**Croeso cynnes i bawb: nid oes rhaid bod yn aelod o'r Gymdeithas i fynychu'r digwyddiad**

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 14 Ebrill, am 7.30yh**
Bydd Rhodri Gomer ar grwydr yn un o ardaloedd prydferthaf Cymru, yn mwynhau harddwch byd natur ac yn ymweld â rhai o drysorau crefyddol a hanesyddol gogledd sir Benfro. Ac fe awn ar daith gerddorol i fwynhau gwledd o emynau o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 14 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Carys Tudor Williams, Caerdydd

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 14 Ebrill, am 12yp**
Oedfa dan ofal John Emyr, Caerdydd

# *Poems from the Soul* (Calon, 2024), M. Wynn Thomas a Ruth Jên Evans

Mae hon yn gyfrol hardd, foethus a hylaw. Cyfrol hyderus o ran ei gwneuthuriad – clawr caled, siaced lwch a'r maint perffaith i'w dal mewn un llaw a'i llithro'n braf i boced eich côt, eich han'bag neu'ch manbag. Cyfrol sy'n anadlu'n ddwfn ac yn araf, yn caniatáu digon o ofod gwyn i'r geiriau gael meddwl ac yn rhoi'r gofod haeddiannol i waith gwych Ruth Jên; dalen gyfan i lun a bodlun, ac i weledigaeth Olwen Fowler, y dylunydd.


Wrth eistedd mewn car moethus, rydych yn gwybod cyn symud modfedd y bydd y daith yn un braf. Felly hefyd y gyfrol hon, a dim ond £12.99 fydd raid i chi dalu am y reid yma.

Hyn oll cyn sôn gair am y gyrrwr na'r cynnwys.

Mae hon yn chwaer gyfrol i *The History of Wales in Twelve Poems* (2021), *A Map of Love* (2023), y ddwy yn gynnyrch y bartneriaeth rhwng Ruth, Olwen, yr awdur a'r cyhoeddwr Calon (gwasgnod i Wasg Prifysgol Cymru). Dyma bartneriaeth sy'n prysur sefydlu lle iddi hi ei hun yn y farchnad o ran cyflwyno testunau dysgedig Cymreig mewn cywair hygyrch a fformat hardd. Mae'n daith gerdded drwy rai o emynau mwyaf adnabyddus Cymru, a'r tywysydd yn aros wrth bob carreg filltir i ryfeddu at yr olygfa a thynnu sylw at ambell beth nodedig yn y tirlun.

Mae M. Wynn Thomas yn dewis testunau cyfarwydd yr oes aur: Gwilym Hiraethog, Ann Griffiths (2), Pantycelyn (4), Mary Owen, Thomas Lewis, Gwyrosydd, T. Rowland Hughes a Tomi Evans. Testunau cyfarwydd, ond oherwydd natur y gyfrol mae'r awdur yn mynnu edrych arnyn nhw o ongl wahanol. Wedi'r cwbl, mae tywysydd da yn gallu taflu goleuni gwahanol ar y llwybrau mwyaf cyfarwydd.

Er efallai fod y testunau'n gyfarwydd i ddarllenwyr yr adolygiad hwn, allwn ni ddim cymryd y byddan nhw'n gyfarwydd i fwyafrif darllenwyr y gyfrol. Mae'r awdur yn cydnabod y ddeuoliaeth,




yn y lle cyntaf, rhwng Cymru gapelgar ei fagwraeth a'r Gymru ôl-Gristnogol yr ydyn ni'n byw ynddi bellach. Ac, wrth gwrs, cyfrol Saesneg yw hon yn cyflwyno emynau a gyfansoddwyd yn Gymraeg. Felly, mae angen cyd-destun a phersbectif gwahanol a difyr er mwyn bachu cynulleidfa at destun dieithr. At hynny, mae'r ffaith fod yr awdur yn cyfeirio'n gyson at faes arall y mae'n awdurdod arno, sef llenyddiaeth yr Unol Daleithiau, yn cynnig golygfa arall, wahanol eto, i ddarllenydd sy'n gyfarwydd â'r daith.

Mae yma gyfieithiad o bob emyn. o waith M. Wynn Thomas ei hun. Ac mae'r rheiny ynddynt eu hunain yn cynnig golwg wahanol ar y gwreiddiol. Mae'n ddifyr darllen sut mae o'n gweld pwysigrwydd yr ail berson unigol 'ti' i ddiwinyddiaeth y Gymraeg; mae'n cynnig agosatrwydd i ni sy'n anodd ei gyfieithu i'r Saesneg.

Mae'n gyfrol sy'n perthyn i'w hoes. Pytiau ydyn nhw yng nghyd-destun ein traddodiad geiriog ni, rhyw gwta 700 gair. Ond eto mae yma linyn sy'n estyn drwy'r gyfrol. Mae'n gyfrol o hanes sy'n mynnu ein tynnu ni'n ôl i gyd-destun cymdeithasol eu cyfansoddi a'r ffaith ganolog mai gwerinwyr cyffredin, â phrin un droed allan o anllythrennedd, oedd yr awduron hyn. Roedd y diwygiadau hyn yr oedd yr awduron yn eu cynrychioli, yn eu tro, yn cynrychioli symudiad mawr i ddemocrateiddio crefydd ac yn ei sgil ddysg ein gwlad.

Mae diwinyddiaeth drom yn gefndir i fwyafrif yr emynau. Ond eto, fel mae M. Wynn yn dangos, mae'r emynau yn fodd o egluro'r ddiwinyddiaeth honno i gyfoeswyr oedd, i raddau helaeth, yn anllythrennog. Mae tri emyn ar ddiwedd y casgliad yn rhai mwy uniongyrchol efallai, ond eto'n talu am eu lle: 'Tydi a roddaist liw i'r wawr' (T. Rowland Hughes), 'Calon Lân' (Gwyrosydd) ac 'O Dduw a roddaist gynt' (Tomi Evans). Mae pob un ohonynt yn ei ffordd ei hun yn profi parhad y traddodiad.

Efallai mai 'Calon Lân' brofodd bwynt i'r adolygydd hwn. Emyn 'Gwyrosydd', enw crand i feddwyn hoffus oedd yn dipyn o fardd gwlad a chlust dda ganddo at ffasiynau ei oes. (Wyddwn i ddim am hyn; mae'n rhaid mod i wedi byw mewn ogof yn Sunderland am hanner canrif.) All neb wadu ei lle i hon mewn tafarn ac ar deras rygbi. Ac eto, dyna brofi calon y gwir. Er bod diwinyddiaeth ddofn yn perthyn i garfan o awduron ac arweinwyr, oedd am gyfnod yn llwyrymwrthodol, mae diwinyddiaeth y mwyafrif yn perthyn i'r dafarn a'r ganolfan siopa a'r maes chwarae yn ogystal, ac yn amlach o lawer na'r capel a'r eglwys.

Ac yn hynny o beth mae M. Wynn yn cloi pob ysgrif gyda phwt am y dôn sy'n cyd-fynd amlaf â'r emyn, y cerbyd sydd, eto'n amlach na pheidio, yn cludo'r geiriau hyn i glust y gwrandäwr. Mae hyd yn oed Cod-QR i chi lwytho casgliad o'r emynau i'ch ffôn neu'ch cyfrifiadur i wrando arnyn nhw wrth ddarllen.

Cyfrol un eisteddiad yw hon ond cyfrol i'w thrysori hefyd. Moethusrwydd cynnwys a ffurf. Pecyn perffaith. Anrheg berffaith. Mynnwch gopi.

*Rocet Arwel Jones*

# BYD O SYMBOLAU

Yn ein cymuned fywiog ac amrywiol, nid yw'n anghyffredin dod ar draws amrywiaeth o symbolau sy'n addurno dillad, modrwyau allweddi, bagiau, ac eitemau cartref amrywiol. Mae gan y symbolau hyn yn aml ystyron diwylliannol ac ysbrydol dwfn, gan adlewyrchu'r tapestri cyfoethog o gredoau sy'n rhan o'n cymdeithas. Fodd bynnag, fel aelodau o eglwys Gristnogol, mae'n hollbwysig myfyrio ar y gwerthoedd a'r dysgeidiaethau sy'n llywio ein ffydd.

## Un Duw

Mae'r ffydd Gristnogol, sydd wedi'i gwreiddio yn nysgeidiaeth Iesu Grist, yn pwysleisio cred undduwiol yn yr un gwir Dduw. Mae'r Beibl, ein testun cysegredig, yn nodi'n glir, 'Ni chewch dduwiau eraill o'm blaen.' (Exodus 20:3, NIV) Mae'r gorchymyn sylfaenol hwn yn gonglfaen i'n ffydd, gan ein hatgoffa o'r ymroddiad unigryw sydd gennym i'r Hollalluog. Wrth i ni lywio trwy fyd lle mae symbolau paganaidd amrywiol wedi dod yn hollbresennol, mae'n hanfodol deall y gwahaniaeth rhwng gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol a chyfaddawdu ein gwerthoedd Cristnogol craidd. Mae ein ffydd yn ein hannog i barchu a charu eraill, beth bynnag fo'u credoau, ond mae hefyd yn ein galw i sefyll yn gadarn yn ein hymrwymiad i addoli a gwasanaethu'r un gwir Dduw.

## Symbolau paganaidd

Mae symbolau Pagan, boed yn hynafol neu'n fodern, yn aml yn dwyn arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol. Fodd bynnag, gelwir ar Gristnogion i fod yn graff yn eu dewisiadau, gan sicrhau bod y symbolau y maent yn eu cofleidio yn cyd-fynd â'u hymrwymiad i Dduw. Pwysleisiodd yr Apostol Paul, yn ei lythyr at y Corinthiaid, bwysigrwydd bod yn ofalus ynghylch dylanwad arferion paganaidd: 'Felly, fy ffrindiau annwyl, ffowch rhag eilunaddoliaeth.' (1 Corinthiaid 10:14, NIV) Gall gwisgo neu arddangos symbolau sy'n gysylltiedig â systemau cred eraill yn anfwriadol gyfleu neges sy'n mynd yn groes i hanfod ein ffydd Gristnogol. Fel aelodau o eglwys Gristnogol, mae gennym gyfrifoldeb i adlewyrchu ein hymrwymiad i Dduw yn ein gweithredoedd, ein dewisiadau, a hyd yn oed yn y symbolau rydym yn dewis cysylltu â nhw.


## Symbolau Cristnogol

Yn lle ildio i atyniad symbolau paganaidd, gadewch inni ganolbwyntio ar y symbolaeth gyfoethog o fewn ein traddodiad Cristnogol ein hunain. Mae'r groes, sy'n symbol pwerus a chyffredinol o Gristnogaeth, yn cynrychioli cariad aberthol Iesu Grist ac yn atgof cyson o'r brynedigaeth a gawn yn Ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Gall cofleidio ac arddangos y groes fod yn ffordd bwerus o gadarnhau ein ffydd yn Nuw a rhannu neges cariad Crist â'r byd. Ar ben hynny, mae'r Beibl ei hun wedi'i lenwi â symbolau dwys sy'n dal ystyr ysbrydol dwfn i Gristnogion. Mae'r golomen, sy'n symbol o'r Ysbryd Glân, a'r pysgodyn, sy'n cynrychioli Crist ac undod Cristnogol, yn ddim ond ychydig o enghreifftiau o symbolau sydd wedi'u gwreiddio yn ein ffydd y gellir eu dathlu a'u rhannu o fewn ein cymuned.

## Pelydru cariad

I gloi, fel aelodau o eglwys Gristnogol, gadewch inni fod yn fwriadol yn ein dewisiadau a'n gweithredoedd. Wrth werthfawrogi amrywiaeth y symbolau yn ein cymuned, mae'n hollbwysig sicrhau bod ein dewisiadau yn cyd-fynd â dysgeidiaeth ein ffydd. Mae gorchymyn Duw i'w addoli Ef yn unig yn egwyddor arweiniol sy'n ein huno fel Cristnogion. Trwy gofleidio symbolau sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd Cristnogol, gallwn fynegi ein ffydd yn ddilys a chyfrannu at gymuned sy'n pelydru cariad a goleuni Crist mewn byd o symbolau.

**Gwyn Jones**
*(oddi ar wefan Seion Drefach www.capelseion.uk)*




**CAPEL PROVIDENCE, LLANGADOG**

Oedfa cyhoeddi'r gyfrol

***GWEDDÏO' SALMAU***

gan y Parchg Euros Jones Evans
nos Wener, 3 Mai 2024,
am saith o'r gloch.

Llywydd: Y Parch. D. Aled Davies,
Cyhoeddiadau'r Gair.

Ceir datganiadau cerddorol gan
Gôr Meibion Bois y Castell
Beti a Siân, Login
Ioan Morgan Anderson,
Capel Seion
Darperir lluniaeth wedyn yn
Neuadd Gymdeithasol, Llangadog

Croeso cynnes i bawb

# Barn Annibynnol

## Mae d'eisiau di bob awr

Felly, llaw lan faint ohonon ni sy'n meddwl bod angen Iesu Grist arnon ni go iawn? Nawr, y rheswm wy'n gofyn hyn yw achos 'mod i'n credu ein bod ni bellach wedi cyrraedd pwynt yn gyffredinol mewn cymdeithas ble ry'n ni'n meddwl ein bod ni'n iawn heb Iesu, diolch yn fawr. Ry'n ni wedi mynd yn hunangynhaliol o ran y ffordd ry'n ni'n byw, sdim angen neb na dim arnon ni ar gyfer ein bywydau. Ry'n ni'n feistri ein ffawd ein hunain, yn gapteiniaid ein bywydau, dim ond ni sy'n bwysig – ni yw canol y bydysawd. Ni yw pobl oes y *selfies*, yr hun-lun, ac ry'n ni'n obsesiynol am ein hunain.

### Perthyn

O ddilyn y trywydd hwn, fe roddon ni'r gorau i fyw yn draws-genhedlaeth (ar y cyfan), gan ddewis byw mewn unedau teuluol niwclear, annibynnol, twt. Does dim angen hen bobl arnon ni i fod yn niwsans o gwmpas y lle. Ac os oes gennym ni hen bobl yn ein teuluoedd, wel, mae'n syniad go dda i'w tacluso mewn i gartrefi henoed. Dyma mae'r ffasiwn wedi bod ers sawl cenhedlaeth, ac mae pawb yn dlotach o'r herwydd, yr ifanc yn colli profiad yr hen a'r hen yn colli cwmni ac egni'r ifanc a cholli teimlo'n rhan o fwrlwm bywyd. O dipyn i beth mae cymdeithas yn darnio, yn breuo a datod (mae'n fwy cymhleth na hyn o ran y ffactorau cyfranogol, mi wn, ond mae'n bendant yn rhan o'r *zeitgeist*). Nid dyma'r ffordd yr ydym ni fel bodau dynol fod i fyw, ddim go iawn. Ry'n ni fod i deimlo'n bod ni'n perthyn i we bywyd ac i rwydwaith y byd, neu beth yw'r pwynt? Nid creaduriaid sy'n bodoli mewn gwacter digyswllt ydyn ni i fod. Mi ddywedodd Waldo fod 'rhwydwaith dirgel Duw yn cydio pob dyn byw.' Wel, cweit.

### Crefydd o fath

Yn yr un modd, fe gollon ni olwg ar Dduw hefyd, achos mae Duw, fe ymddengys, yn byw y tu fas i'r uned deuluol erbyn hyn. A chan mai'r cartref yw'n bydysawd ni (y castell, chwedl y Sais), fe lenwon ni'r bydysawd hwnnw â phethau, rhyw dranglwns a geriach, gwrthrychau sydd i fod i'n gwneud ni'n gyflawn. Fe wyddom y daeth siopa yn hamdden newydd i bobl yr unfed ganrif ar hugain, yn grefydd o fath. Fel rhywun sy'n caru siopa (i chi ddeall, mae'n fwy na dim ond siopa, mae'n brofiad, yn rhywbeth cymdeithasol, yn rhywbeth sy'n ymarfer yr holl synhwyrau ac yn medru llonni calon, am damed ta beth) mi ydw i'n hollol effro i'r ffaith mai hoffter reit arwynebol yw hwnnw hefyd, rhyw



ffansi'r funud sy'n cynhyrfu'r galon am ychydig ond sy'n newid dim ar unrhyw beth. Wnaiff pâr o sgidie newydd ddim fy ngwneud i'n well person, dim ots pa mor wych y'n nhw, wy'n gwbod hynny'n iawn.

### Siwdo-gadarnhaol

Wy'n gwbod hefyd yn yr oes hon o brisio'r allanolion ein bod ni'n twyllo'n hunain ein bod ni'n well pobl drwy ymddwyn mewn ffordd arbennig. Defnyddio *mindfulness* fel canllaw i'n bywydau ni, bod yn bresennol yn y foment, dysgu gwerthfawrogi'r hyn sydd gennym ac ailadrodd mantras siwdo-gadarnhaol fel 'be kind' neu 'yes, you can'. Nawr, dydy'r pethau hyn yn eu hanfod ddim yn bethau gwael, am wn i.

Gwell gen i 'be kind' na 'greed is good' yr hen Gordon Gecko yn y ffilm o'r wythdegau *Wall Street* am eithafion ariangar byd y marchnadoedd arian yn America. Ond wn i ddim a yw'r pethau hyn yn *unig* yn ddigon. A dweud y gwir, mi wn nad ydyn nhw. A fu cymdeithas orllewinol erioed mor anhapus, mor wag o ran ystyr, yn bobl heb eu diwallu er gwaetha bywydau cyfforddus? Gwacter enaid ond tŷ llawn. 'Stuffocation' yw'r term am ein cyflwr presennol ni, gweler cyfrol y seicolegydd Oliver James *Affluenza* (2007) am ein salwch materol ni, meddai: 'advanced capitalism makes money out of misery and dissatisfaction, as if it were encouraging us to fill up the psychic void with material goods.'

### Heb ddisgwyl dim yn ôl

Ond, un peth wy yn ei wbod hefyd yw bod Iesu Grist y tu hwnt i bethau'r byd hwn a'i fod, drwy ei air wedi dangos i ni sut mae byw yn y byd sydd ohoni, heddiw, er iddo fyw dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Fe'n dysgodd i fod yn garedig, i garu'n gilydd, i deimlo'r perthyn, i rannu, i fyw'n dda, i fynnu ystyr. Tasech chi am, mi fedrech chi'n hawdd ail-frandio'r Iesu heddiw fel *lifestyle guru* … heblaw y byddai hynny'n ei ddibrisio'n ddybryd ac yn ei droi mewn i gomoditi, sef yr union beth *nad* yw'r Iesu. Oherwydd gwnaeth hyn oll am ddim … dim byd mwy (na llai) na'i fod yntau'n ein caru ni, a bod y cariad hwnnw i bawb, tu hwnt i bob dim, ac yn ddiderfyn, heb ddisgwyl dim yn ôl.

Felly, llaw lan pwy sydd angen Iesu Grist … go iawn?

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**✦ENCIL I WEINIDOGION✦**

**Ebrill 18-19 yn Nant Gwrtheyrn**

**Thema'r Encil:**
"Dyma'r Arglwydd yn dweud wrth Abram, 'Dwi am i ti…'" (Genesis 12:1).
Beth yw Gair yr Arglwydd i Gymru heddiw? Beth mae'r Arglwydd yn ein galw ni i'w gyflawni?

**Dydd Iau, Ebrill 18**

| | |
|---|---|
| 3:00 | Te / Coffi a Chofrestru |
| 3:30 | Oedfa Agoriadol<br>Parchg Jill-Hailey Harries |
| 4:00 | Astudiaeth Feiblaidd: Genesis 12:1-9<br>Yr Athro Emeritws Eryl Wyn Davies |
| 5:00 | Amser rhydd a threfnu llety |
| 6:00 | Swper |
| 7:30 | Darlith Goffa Dr. Pennar Davies a Dr. Tudur Jones<br>Parchg Ddr Alun Tudur |

**Dydd Gwener, Ebrill 19**

| | |
|---|---|
| 7:00 | Epilog a Gweddi ar y traeth *(Dewisiol)*<br>Parchg Dylan Rhys Parry |
| 8:00 | Brecwast |
| 9:30 | Gwibdaith i Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr<br>Defosiwn a Chyflwyniad: Tystiolaeth y Saint – Ymateb i'r alwad<br>Parchg Canon Ddr Rosie Dymond a'r Parchg Selwyn Griffith |
| 10:45 | Te / Coffi yn y Nant |
| 11:15 | Duw'n arwain yr eglwysi yn yr 20G. Y llwyddiannau a'r methiannau<br>Parchg Ddr Siôn Aled |
| 12:00 | Seminar. Ein Dealltwriaeth o Genhadu ac Efengylu<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 12:45 | Cinio |
| 1:30 | Panel Holi dan arweiniad Alun Lenny |
| 3:00 | Oedfa i Gloi<br>Parchg Glenys Jones |

**Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Carwyn Siddall,**
***Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau***



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Brynteg, Llanwenog

Daeth aelodau o gapel Brynteg, Llanwenog, Capel Seion, Cwrtnewydd ac eglwysi St Gwenog, Llanwenog a St Luc, Llanllwni ynghyd yng nghapel Brynteg ar Fawrth y cyntaf ar gyfer gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd a baratowyd eleni gan ferched Palesteina. Addurnwyd y bwrdd gan symbolau o Balesteina gan gynnwys dail olewydd, planhigion cactws a ffrwythau sitraidd.





Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2024

**Prifysgol De Cymru, Trefforest**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

## Ymddiheuriad

Oherwydd trafferthion technegol gyda chyfrif e-bost y Tyst nid oedd yn bosibl i gael gafael ar gyfraniadau a anfonwyd ar ddechrau mis Mawrth. Ymddiheuriad am hyn gan eu cynnwys nawr ychydig yn hwyrach na'r bwriad. Gol.

# Hope-Siloh

Fore Gwener 1 Mawrth, hyfryd oedd croesawu dosbarth derbyn Ysgol Gymraeg Bryniago i ddathlu Gŵyl Dewi gyda ni. Cafwyd gwledd i'r glust yn ogystal â'r llygaid. Pob un yn edrych yn smart yn eu gwisg Gymreig ac wrth eu bodd. Wedi'r perfformiad ymunodd rhieni'r plant â ni am gwpaned o de a phice ar y maen a mwynhaodd y plant y wledd o deisennod a ddarparwyd iddynt.

Cafwyd gwasanaeth bendithiol ac egnïol ymysg aelodau ifanc yr eglwys i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi wrth iddyn nhw gyflawni heriau amrywiol oedd yn cydfynd â bywyd a neges Dewi. Un o uchafbwyntiau blynyddol yr eglwys, yw'r noson gawl. Cafwyd gwledd o gawl cennin a diolch yn fawr i Leisiau Lliw am yr adloniant.

**J. Clarke**





*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*